



Adran Gwaith
a Phensiynau

Y cynllun Hyderus o ran Anabledd

**Hawdd i'w
Ddarllen**



Cynnwys

1



Cyflwyniad

Tudalen 3

2



Pam ddylech ddod yn gyflogwr Hyderus o ran Anabledd

Tudalen 5

3




Sut i ddod yn Hyderus o ran Anabledd

Tudalen 7

1

Cyflwyniad



Mae'r cynllun Hyderus o ran Anabledd yn cefnogi cyflogwyr i gyflogi a chadw pobl anabl mewn gwaith.

Mae'r cynllun yn rhoi arweiniad a chynghor am ddim i chi i'ch helpu i wneud hyn.



Mae'r cynllun yn annog cyflogwyr i feddwl sut y gallant gyflogi pobl anabl.

Mae'n gwneud hyn trwy ddarparu arweiniad ac adnoddau am ddim i gyflogwyr.



Mae hyn yn cynnwys helpu cyflogwyr i wella:

- Sut maen nhw'n **cael** pobl anabl i mewn i waith
- Sut maen nhw'n **cadw** pobl anabl yn y gwaith.



Mae Cyflogwr Hyderus o ran Anabledd yn:

- Herio agweddau
- Cynyddu dealltwriaeth o anabledd



- Dileu rhwystrau i bobl anabl sydd â chyflyrau iechyd hirdymor
- Cefnogi pobl anabl i gyflawni eu potensial.



Mae'r wybodaeth hon yn esbonio:

- Pam y dylech ddod yn Hyderus o ran Anabledd
- Sut i wneud hyn
- Y gwahanol lefelau o'r cynllun.

2

Pam y dylech ddod yn gyflogwr Hyderus o ran Anabledd



Gallai bod yn Hyderus o ran Anabledd eich helpu i ddod o hyd i rywun sydd ei angen ar eich busnes.



Mae'r cynllun hefyd yn cefnogi pobl anabl sydd eisoes yn gweithio i chi.



Mae dod yn Hyderus o ran Anabledd yn gallu helpu:

- Eich pobl i gyflawni eu potensial
- Cynyddu llwyddiant eich tîm.




Bydd ymuno â'r cynllun yn eich helpu i arwain y ffordd ar gyfer newid cadarnhaol mewn agweddau, ymddygiadau a diwylliannau tuag at anabledd.

Mae Hyderus o ran Anabledd yn helpu busnesau:



- Tynnu o'r gronfa ehangaf o dalent
- Diogelu a chadw staff medrus o ansawdd uchel sy'n ffyddlon ac yn gweithio'n galed
- Arbed amser ac arian ar gostau recriwtio a hyfforddi trwy leihau trosiant staff



- Cadw sgiliau a phrofiad gwerthfawr
- Lleihau lefelau a chostau absenoldebau salwch
- Gwella morâl ac ymrwymiad gweithwyr trwy ddangos eu bod yn trin pob gweithiwr yn deg.

3

Sut i ddod yn Hyderus o ran Anabledd



Mae gan y cynllun 3 lefel i'ch cefnogi ym mhob rhan o'ch taith Hyderus o ran Anabledd.

Mae'n rhaid i chi gwblhau pob lefel cyn y gallwch symud ymlaen i'r nesaf.



Am fwy o wybodaeth, ewch i www.gov.uk/government/publications/disability-confident-guidance-for-levels-1-2-and-3.cy

Am godau QR

Mae'r codau bar sgwâr hyn yn agor gwefan benodol, gan arbed chi i deipio cyfeiriadau gwe hir. Gallwch gael ap am ddim i sganio codau QR ar y mwyafrif o ffonau clyfar.


Lefel 1: Hyderus o ran Anabledd Ymrwymedig



Ar gyfer Lefel 1, mae'n rhaid i chi:

- Cytuno i'r ymrwymïadau Hyderus o ran Anabledd
- Nodi o leiaf un gweithgaredd y byddwch yn ei gyflawni i wneud gwahaniaeth i bobl anabl.

Ymrwymiadau Hyderus o ran Anabledd yw:



- Recriwtio cynhwysol a hygyrch
- Cyfathrebu swyddi gwag
- Cynnig cyfweiliadau i bobl anabl
- Darparu addasiadau rhesymol
- Cefnogi gweithwyr presennol.



Mae'n rhaid i chi ddewis o leiaf un gweithgaredd:

- profiad gwaith
- treialon gwaith
- cyflogaeth â thâl



- prentisiaethau
- cysgodi pobl wrth gwneud eu gwaith
- hyfforddeiaethau



- interniaethau
- lleoliadau myfyrwyr
- lleoliadau academi gwaith yn y sector.




Efallai bod eich busnes yn gwneud rhai o'r pethau hyn yn barod.

Os felly, gall y cynllun helpu i ddweud wrth bobl fod eich busnes yn canolbwyntio ar gyfle cyfartal i bobl anabl.

Ar ôl i chi gyrraedd lefel 1, bydd eich busnes yn cael:



- Cadarnhad o'ch aelodaeth
- Tystysgrif Hyderus o ran Anabledd
- Bathodyn Ymrwymedig Hyderus o ran Anabledd
- Gwybodaeth i'ch helpu i barhau â'ch taith Hyderus o ran Anabledd.



Gellir defnyddio'ch bathodyn Hyderus o ran Anabledd am 3 blynedd ar unrhyw:

- deunyddiau ysgrifennu busnes
- swyddi cyfryngau cymdeithasol
- cyfathrebu.



I gofrestru ar gyfer Lefel 1, ewch i [Sut i gofrestru ar gyfer y cynllun cyflogwr Hyderus o ran Anabledd - GOV.UK](https://gov.uk/guidance/how-to-apply-for-hyderus)

Lefel 2: Cyflogwr Hyderus o ran Anabledd



Ar ôl mewngofnodi hyd at Lefel 1, gallwch symud i Lefel 2 y cynllun.

Mae Lefel 2 yn golygu y byddwch yn dod yn **'Gyflogwr Hyderus o ran Anabledd'**.



Mae angen i chi gwblhau 'hunanasesiad' eich sefydliad a chadarnhau eich bod yn cyflogi pobl anabl.




Mae hunanasesiadau yn seiliedig ar 2 beth:

- Cael y bobl iawn ar gyfer eich busnes
- Cadw a datblygu eich pobl.



Ar ôl i chi gyrraedd Lefel 2, fe'ch cydnabyddir fel mynd yr ail filltir i sicrhau bod pobl anabl yn cael chwarae teg.



Ar ôl cwblhau eich hunanasesiad ar-lein, byddwch yn cael eich cofrestru fel Cyflogwr Hyderus o ran Anabledd.

Mae hyn yn para am 3 blynedd, a byddwch yn cael:



- Cadarnhad eich bod wedi cwblhau eich hunanasesiad
- Tystysgrif Hyderus o ran Anabledd
- Bathodyn Lefel 2 Cyflogwr Hyderus o ran Anabledd
- Gwybodaeth ar sut i ddod yn Arweinydd Hyderus o ran Anabledd.



Yn yr un modd â Lefel 1, gallwch ddefnyddio'ch bathodyn Lefel 2 am 3 blynedd ar unrhyw:

- deunyddiau ysgrifennu busnes
- cyfryngau cymdeithasol
- cyfathrebu.



Pan fyddwch wedi cwblhau eich hunanasesiad, bydd angen i chi gadarnhau hyn. Ewch i'r dudalen [Mewngofnodi - Dod o hyd i swydd](#) a dewiswch Cynllun Hyderus o ran Anabledd.

Lefel 3: Arweinydd Hyderus o ran Anabledd



Mae lefel 3 y cynllun yn golygu eich bod yn dod yn **'Arweinydd Hyderus o ran Anabledd'**.




Mae hyn yn golygu y byddwch yn gweithredu fel hyrwyddwr anabledd yn eich cymunedau lleol a busnes.

I gyrraedd lefel 3, mae angen i chi:



- Sicrhewch fod eich hunanasesiad (o lefel 2) wedi'i ddilysu'n annibynnol
- Ysgrifennwch ddatganiad byr yn dweud beth rydych wedi'i wneud neu y byddwch yn ei wneud fel Arweinydd Hyderus o ran Anabledd
- Cadarnhau eich bod yn cyflogi pobl anabl.



Rhoi gwybod am wybodaeth yn gyhoeddus ar:

- anabledd
- iechyd meddwl
- lles.



I ddarganfod mwy o wybodaeth am roi gwybod, ewch i www.gov.uk/government/publications/voluntary-reporting-on-disability-mental-health-and-wellbeing.cy

Unwaith y cewch eich ystyried yn Arweinydd Hyderus o ran Anabledd, cewch:



- Cadarnhad bod eich hunanasesiad wedi'i gwblhau a'i ddilysu'n llwyddiannus
- Tystysgrif i gydnabod eich cyflawniad
- Bathodyn Arweinydd Hyderus Lefel 3, Anabledd.



- Gallwch ddefnyddio'ch bathodyn am 3 blynedd ar unrhyw:
- deunyddiau ysgrifennu busnes
- cyfryngau cymdeithasol
- cyfathrebu.



I gadarnhau eich bod wedi cwblhau Lefel 3, ewch i'r dudalen [Mewngofnodi - Dod o hyd i swydd](#) a dewiswch cynllun Hyderus o ran Anabledd.



Gall cyflogwyr adnewyddu eu haelodaeth ar ddiwedd y 3 blynedd.

Mae'n bosibl gwneud hyn ar gyfer pob un o'r 3 lefel.



I ddarganfod mwy am adnewyddu aelodaeth Hyderus o ran Anabledd, ewch i www.gov.uk/guidance/renew-your-disability-confident-status